

Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Elwyn Tudor (Henllan) sydd yn Ysbyty Broadgreen. Hyderwn y bydd y llawdriniaeth yn llwyddiannus ac y caiff adferiad iechyd buan iawn. Parhawn i gofio hefyd am Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd, a hefyd Gwyn H. Davies (Hiraethog) sy'n parhau'n yr Inffirmari. Cyflwynwn y tri i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen. Mae eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd. Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.

Cymorth i'r Ffoaduriaid

Os dymunwch gyfrannu Nwyddau i'r ffoaduriaid, bydd y llwyth nesaf yn mynd i Calais yn fuan ym mis Hydref (gweler y daflen am fanylion o'r hyn sydd ei angen). Os oes ganddoch nwyddau i'w cyfrannu, byddem yn ddiolchgar o'u derbyn yn y Granar yn Llansannan **erbyn Hydref 6ed**, os gwelwch yn dda. Os oes angen i ni eu casglu, plis cysylltwch â Mair i wneud trefniadau.

Hwyrach y byddai'n well gennych gyfrannu'n ARIANNOL. Holwch un o'r blaenoriaid i gael amlen felen (Apêl Argyfwng – Tearfund). Byddem yn ddiolchgar petaech yn dychwelyd yr amlenni i Mair **erbyn dydd Sul, Hydref 25ain** gan wneud unrhyw siec yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', os gwelwch yn dda. Os yw'n bosibl i chi hefyd lenwi ac arwyddo'r ffurflen rhodd cymorth sydd ar yr amlen, byddai hynny hefyd yn cynyddu gwerth eich rhodd ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

I ddod

- **DARLITHOEDD DAWN CYMRU – GRŴP Y GOGLEDD** yn cyfarfod yn Festri Capel Tegid, Y Bala dydd Sadwrn, Hydref 10fed.
- **PWYLLGOR CYMDEITHAS Y BEIBL LLANSANNAN** nos Sul, Hydref 11eg am 7.30.
- **GWASANAETHAU DIOLCHGARWCH HENLLAN**, dydd Llun, Hydref 12fed. Bydd plant Ysgol Henllan yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y prynhawn am 2.00 a Mrs Mair Beech Williams yn rhoi sgwrs i'r plant, ac yna yng nghyfarfod yr hwyr am 7.00, ceir pregeth gan y Parch. Dewi Tudur. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA DDIOLCHGARWCH UNDEBOL LLANSANNAN** nos Fercher, Hydref 14eg yn Festri Capel Coffa Henry Rees am 7.30 gyda'r Parch. Eric Jones yn pregethu. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith Coleg y Bala. Croeso cynnes i bawb.
- **GŴYL DDIOLCHGARWCH LLANEFYDD** – Gwasanaeth gan blant yr ysgol bore Llun, Hydref 19fed, a phregeth gan Aneurin nos Fercher, Hydref 21ain am 7.00.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Saron nos Fawrth, Hydref 20fed am 7.30 yng nghwmni Mrs Dilys Hughes, Trefnant.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 27^{ain} Medi 2015

Darlleniad y Dydd

Rhufeiniaid 2:1-4
(BCND tud.166 / BCN: tud.151)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org


hyfforddiantdawn.com

Bore da i chi, a diolch i Gwion a Sarah am eu cyfraniad dros y pythefnos olaf. Diolch i chithau am roi croeso mawr iddynt atom ac am eich gweddïau drostynt. Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn eu bendithio wrth iddynt baratoi at ddydd eu priodas a'u bendithio'n fawr wrth iddynt gyflwyno Iesu i ni a'n plant a'n hieuenctid. Mae'n anodd meddwl am waith pwysicach na mwy ei braint, a'n braint ni yn wir yw eu cefnogi.

Daeth hyn yn amlwg i mi yn ystod y gwasanaeth arbennig a gawsom ar ddechrau'r mis pryd y buom yn cyd-gymuno gyda'r ieuenctid ac yn llawenhau gyda'u teuluoedd a'u cyd-aelodau. Roedd y teulu gyda'i gilydd – teulu'r ieuenctid o ran perthynas a hefyd teulu'r ffydd – teulu sydd mewn perthynas oherwydd y gred gyffredin yn Iesu fel Arglwydd a Gwardwr, a'n ffydd ynddo fel Mab Duw. Roedd hi'n brofiad eithriadol edrych ar y gynulleidfa fawr a oedd yno a sylweddoli pa mor ddwfn yw'r gwreiddiau teuluol yn ein plith fel cynulleidfaoedd ym Mro Aled a sylweddoli hefyd cymaint o gysylltiad ffydd sydd rhyngom. Fe welais pa mor wir ydi disgrifiad Iesu ohono'i hun fel y 'Wir Winwydden' a ninnau fel canghennau yn un ag o, ac yn derbyn o'i fywyd a'i Ysbryd y nerth i fyw a dwyn ffrwyth.

Darlun arall, byw iawn y diwrnod hwnnw oedd gweld yr Eglwys fel teulu a phob un yn cymryd ei ran yn nhwf y corff. Ffrwyth llafur nifer fawr iawn o flynyddoedd a phobl oedd yr Oedfa. Bu'r ieuenctid yn derbyn o ddysgeidiaeth yr Efengyl ar eu haelwydydd, yn yr Ysgolion Sul a'r oedfaon, yn y clybiau plant dros eu blynyddoedd cynnar, ac yn CIC, Coleg y Bala, a thrwy droeon eu bywyd a'u gyrfaoedd. Rŵan, mae galwad Duw arnynt yn dwysáu a'n gweddi yn naturiol ydi y byddant yn llwyddo ac yn hapus yn eu bywyd, ond awn gam ymhellach a gweddïo hefyd y byddant yn dod i ymateb i alwad Duw i'w gwneud hwythau yn 'bysgotwyr pobl'. Gallwn gredu amdanynt y byddant yn dod yn rhan allweddol o genhadaeth Crist yn eu cenhedlaeth ac y dônt i weld aruthrol fawredd cariad a gogoniant Iesu a'i waith o ennill pobl ato'i hun i'w heddwch a'i fywyd.

Fy ngobaith i ydi y bydd Duw yn gweithio'n nerthol i'w galw i rannu'r efengyl yn hytrach na dim ond gwrando'r efengyl, ac y bydd Duw yn eu defnyddio i ehangu ei deyrnas yn y byd trwy i eraill ddod i gredu trwy eu tystiolaeth nhw i waith gras Crist. Dyma yw fy ngobaith am bob un ohonoch petai'n dod i hynny! Bydded i'r Arglwydd ein bendithio'n helaeth heddiw wrth i ni ei addoli gyda'n gilydd.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Aneurin

Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 118:1-4 (BCND tud.559 / BCN: tud.511)

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 27^{ain} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Aneurin yn pregethu.

Iau – 1^{af} • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.

Sul nesaf – 4^{ydd} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 27^{ain} Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Sul nesaf – 4^{ydd} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

Sul yma – 27^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10:00 pryd y bydd Mark a Bethan Woods yn cyflwyno Aron Dafydd i gael ei fedyddio. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11:10.

Sul nesaf – 4^{ydd} Ar ddechrau'r oedfa am 10:00, bydd Aneurin yn bedyddio Jakob John, mab bach Aaron a Cheri Middleton sydd bellach yn byw yn Sweden. Yna, bydd Gwion a Sarah yn arwain oedfa Diolchgarwch i'r teulu a bydd cyfle i fynd i'r Festri i gael paned ac i'r plant gael blas o'r Ysgol Sul wedi hynny.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 27^{ain} Bydd Sioned Ll. Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd.

Gwener – 2^{il} Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso i bawb!

Sul nesaf – 4^{ydd} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 27^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Sul nesaf – 4^{ydd} Bydd Gwion a Sarah yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma – 27^{ain} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00.

Sul nesaf – 4^{ydd} Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma – 27^{ain} Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

Iau – 1^{af} Cynhelir Oedfa Diolchgarwch yn Saron am 7.00 gyda'r Parch. James Clarke yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.

Sul nesaf – 4^{ydd} Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yr ieuencid a'r plant yn Saron am 10.00. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Manylion Cyswllt

Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📱 07775 701102

Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 07849 591163

Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07900 308461

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.